Fframwaith Deilliannau GGA
Gwella Ysgolion

LIC

GwE

Atebolrwydd

Her ac Adolygu Mawrth:
Her Gweithredol ar Gynlluniau Lefel 2 & 3 gan weision sifil

Her ac Adolygu Hydref:
Her Gweinidogaethol ar gynnydd yn erbyn deilliannau

Amcanion (Mewnbynnu)

Lles Disgyblion ac Ecwiti
Cwricwlwm ac Asesu
Addysgeg
Arweinyddiaeth
Y System Hunan-Wella

Cynlluniau Lefel 1

1. Safonau
2. Cwricwlwm ac Asesu
3. Arweinyddiaeth
4. Lles
5. Addysgu
6. Busnes
7. Argymhellion Estyn

Gweithgareddau

Strategaeth Cyllido
Amodau a Thelerau GGA

Cynlluniau Lefel 2 + 3

1. Sicrhau y cyrhaeddir y safonau uchaf ym mhob cyfnod allweddol a bod pob dysgwr yn gwneud cynnydd priodol mewn llythrennedd a rhifedd o un cyfnod allweddol i'r llall. Bod pob dysgwr yn ennill cymwysterau sy'n berthnasol i'w gallu a'u potensial ac yn gweithio tuag at fod yn ddwyieithog erbyn eu bod yn un ar bymtheg oed.
2. Sicrhau bod pob ysgol yn cyflwyno cwricwlwm diddorol sy'n ymateb i ofynion statudol y cwricwlwm cenedlaethol. Sicrhau bod pob dysgwr yn cael eu cefnogi i gyflawni cymwysterau sy'n eu galluogi i fod yn ddysgwyr galluog, uchelgeisiol sy'n cyrraedd eu potensial. Sicrhau bod gan bob ysgol brosesau asesu cadarn mewn lle gyda gweithdrefnau targedu, olrhain ac ymyrraeth cadarn.
3. Sicrhau bod gan bob arweinydd weledigaeth addysgol glir ac yn medru cynllunio'n strategol er mwyn cyflawni hyn. Sicrhau bod gan bob sefydliad dysgu y gallu i arwain ar bob lefel i ysbrydoli, hyfforddi, cefnogi, rhannu arfer a chydweithio ar bob lefel i sicrhau bod pob dysgwr yn cyflawni eu potensial. Sicrhau bod egwyddorion arweinyddiaeth ddosbarthol yn cael eu gwreiddio ym mhob sefydliad dysgu ar draws y rhanbarth.
4. Creu'r amodau i sicrhau bod dysgwyr yn datblygu fel unigolion iach, gwydn a chyfrifol yn fyd-eang a darparu system addysgol gynhwysol, uchelgeisiol, sy'n ymroddedig i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb fel bod pobl ifanc yn cyflawni eu llawn potensial.
5. Sicrhau bod pob athro a staff cymorth wedi'u harfogi â dealltwriaeth glir o beth yw addysgu effeithiol, yn seiliedig ar dystiolaeth ddibynadwy. Yn ogystal, mae'r gallu i gyflwyno ystod o ddulliau, sy'n cyfateb i anghenion dysgwyr â'r cyd-destun yn effeithiol, er mwyn sicrhau effaith gadarnhaol ar ddysgu a chyflawniad yn hollbwysig.
6. Sicrhau bod gan GwE lywodraethu cadarn a chefnogaeth fusnes a gweithredol effeithiol sy'n rhoi gwerth am arian.
7. Sicrhau bod cynnydd angenrheidiol yn cael ei wneud yn erbyn pob argymhelliad o fewn yr amserlen ddisgwyliedig. *(Camau gweithredu, allbynnau a meini prawf llwyddiant manwl yn Nghynllun Busnes GwE 2017-2020).*

(Gweler gweithredau, allbynnau a meini prawf llwyddiant yng Ngynllun Busnes GwE)

Deilliannau Cenedlaethol (Cenhadaeth)

- Gwella deilliannau ar gyfer pob dysgwr a lleihau amrywiad perfformiad ar draws ysgol
- Gwella lles dysgwyr
- Cynnydd cyflymedig o'r ysgolion hynny mewn categori cefnogaeth oren a choch a chategori ffurfiol Estyn
- Ysgolion yn darparu cwricwlwm priodol ac eang
- Bod ysgolion yn cael eu herio a'u cefnogi i weithredu'r agenda Dyfodol Llwyddiannus
- Gwella Ansawdd dysgu, addysgu ac arweinyddiaeth.
- Galluogi ysgolion i dyfu fel sefydliadau dysgu, yn cydweithio a rhannu arbenigedd er budd pob dysgwr.

Nod (Gweledigaeth)

- Pob dysgwr yn barod, yn emosiynol ac yn gorfforol, i ddysgu ac yn cael cefnogaeth dda i oresgyn rhwystrau i'w dysgu.
- Cwricwlwm eang, cytbwys sy'n llawn ysbrydoliaeth sy'n rhoi sylw penodol ar asesu ar gyfer dysgu.
- Gweithlu rhagorol sydd â gwybodaeth ddamcaniaethol ac ymarferol a sgiliau i ddatblygu potensial llawn pob dysgwr.
- Arweinwyr addysg sy'n cael cefnogaeth dda i ysbrydoli cydweithwyr a dysgwyr i gydweithio a gwella'r gyfundrefn addysg i bawb.
- System addysg sy'n gefnogol i'r naill ochr a'r llall sy'n cydweithio, gan rannu arbenigedd er budd pob dysgwr.

CYNLLUN RHANBARTHOL AC ARIANNOL AR Y CYD

Gwerth am Arian

Effeithiolrwydd | Effeithlonrwydd | Economi | Cynaliadwyaeth | Gwerth Ychwanegol | Manteision Cydweithio | Ansawdd